

canu'n broffesiynol ar ôl priodi, yr oedd casglu'r alawon gwerin bellach yn bwysig eithriadol iddi hi — a detholiad o'r alawon hyn oedd rhaglen ei chyngerdd prin yn neuadd y Pownall yn Rhagfyr 1912.

Y 'Graianfryn' oedd canol eu bywyd bellach — yma yr oedd Enlli'r pererinion diwylliannol a chyrchfan naturiol cefnogwyr Lloyd George yn yr ardal. Yma, ar y lawntiau hardd, y byddai Grace Gwynedd Davies yn 'derbyn' ei chyfeillion yn yr haf — gan gynnwys teulu'r prifweinidog rhwng 1916 ac 1922.

A thestun siarad — a blys — plant y plwy' oedd y clystrau o fefus mawr o dan eu rhwydi a fyddai'n cael eu dewis ar gyfer te hufen a mefus meistres y tŷ a'i chyfeillion.

A thu draw i'r lawntiau — y cwrt tenis. Neu dyna farn plant y plwy' am y llain werdd honno a oedd yn cael ei gwarchod yn garedig gan y garddwyr. Rhyfeddod aruthrol y plant!

Mynwent arbennig ar gyfer cŵn Rhyddfrydol oedd y llain werdd, a chyfeillion Mrs Davies yn dod â'u hanwyliaid efo nhw o fannau mor bell â Llundain a Bath er mwyn eu claddu yn heddd gardd y 'Graianfryn'.

* * * *

AR DDYDDIAU arbennig fe fyddai'r *chauffeur* yn gyrru'r Bentley gloywddu drwy'r dorau mawr gan hebrwng y meist'r a'r feistres am orsaf Caernarfon neu Fangor neu am borthladd Lerpwl a llongau mawr y Cunard a phen draw'r byd.

Dyddiau'r teithio oedd y rhieni — yn enwedig ar ôl i Robert Gwynedd Davies ymddeol yn 1919 — ymddeol yn naw a deugain oed. Teithio ar draws yr Iwerydd am America ac am Canada, croesi'r cyhydedd am Dde Affrica, pererindota am Balesteina, a mynych dripiu am Ewrop.

Yn aml mi fyddai o'n darlithio ar yr alawon gwerin a hithau'n canu'r alawon. Teithio llai egsotig hefyd i lawer man — ar lein y L.N.W.R. ac yn y Bentley mawr.

Blynyddoedd braf y 'Graianfryn' oedd y rhain. Yno yr oedd morwynion a merched yn gwnio yn hwyluso bywyd Grace Gwynedd Davies. Yr oedd ganddi hi'r modd a'r hamdden ar gyfer meithrin ei gweithgaredd ym myd yr alawon gwerin.

Dyma'r cyfnod pan gyhoeddodd hi ddau gasgliad o alawon gwerin Môn — a hynny yn ôl Enid Parry, am mai yno yr oedd gwreiddiau'i thad, Lewis Roberts.

Cyhoeddwyd y cyntaf yn 1914, er nad yw'r dyddiad ar y casgliad:

*'ALAWON GWERIN MÔN
a gasglwyd ac a drefnwyd ar
gyfer y berdoneg . . .'*

Saith o alawon a chyfieithiad

Saesneg ohonyn nhw gan yr hynod Robert Bryan. Cwmni'r Cyhoeddwy'r Cymreig, yn adeilad *Y Genedl* yng Nghaernarfon, a argraffodd y gwaith.

Cafwyd yr ail gasgliad naw mlynedd yn ddiweddarach, er nad oes dyddiad ar gyfer hwn ychwaith:

*'ALAWON GWERIN MÔN
. . . ar gyfer y berdoneg . . .'*

a'r geiriau Saesneg eto gan Robert Bryan. Ffyrn Hughes a'i Fab yn Wrecsam a oedd yn gyfrifol am yr argraffu y tro hwn.

Sonnir am dri o gasgliadau gan Grace Gwynedd Davies. Pa un oedd y trydydd? Y mae hi'n bosibl mai ail argraffiad ydi cyhoeddiad 1923.

* * * *

NID OEDD cyhoeddi'r alawon ond blaenffwrth gweithgarwch mawr iawn Grace Gwynedd Davies ar ran Cymdeithas yr Alawon Gwerin.

Erbyn y rhyfel mawr yr oedd hi a Ruth Herbert Lewis a Mary Davies ac eraill wedi casglu cannoedd o eitemau, a'r rheini yn aml wedi cael eu recordio, yn ôl Roy Saer, cyn eu cofnodi ar bapur.

Yr oedd y llafur hwn yn hawlio amser ac arian, ac yr oedd gan Grace Gwynedd Davies y ddeubeth hyn fel y dywedwyd eisoes. Amser, arian ac amynedd hefyd. Cyfeiriodd Enid Parry at y gwaith anodd o berswadio unigolion i ganu'r hen alawon — roedd rhai yn swil

*'ac eraill â chywilydd o'r hen
ganeuon.'*

Nid oedd Seisnigrwydd enbyd rhai o aelodau cynnar y Gymdeithas o fantais i neb ychwaith — Saesneg oedd iaith Mary Davies a iaith weithredol Grace Gwynedd Davies hithau, er y gallai siarad Cymraeg. Gwyddom i Ruth Herbert Lewis ddysgu'r iaith.

Yr oedd rhwystr arall ar lwybr Grace Gwynedd Davies hefyd. Nid oedd yn gallu rhoi'r alawon ar bapur, ar ôl iddi eu trefnu.

Felly, eto yn ôl Enid Parry, fe anfonodd maes o law at yr Academi Frenhinol i ofyn am gymorth myfyriwr o Gymro yn y dasg hon.

Y gŵr ifanc a ddaeth i roi ei threfniadau ar glawr tra'r oedd hi'n canu'r piano, oedd Mansel Thomas, a fu flynyddoedd yn ddiweddarach, yn bennaeth adran gerdd y BBC yng Nghymru.

* * * *

DIWYLLIANT, cerddoriaeth y werin, gwleidyddiaeth, y bywyd cyhoeddus lleol — yr oedd y rhain i gyd yn bethau pwysig iawn ym mywyd bonheddig braf Grace a Robert Gwynedd Davies y 'Graianfryn', Llanwnda.

Yr ochr draw i'r Ffingar, dri lled cae draw, y mae capel mirain y Methodistaidd Calfinaidd yng

Nglanrhyd, y capel efo'i dŵr eglwysig hardd, wedi'i gynllunio yn ôl y sôn ar batrwm hen gapel Princes Road, Lerpwl. Yn y capel *elegant* o ffasiynol hwn yr oedd pobol y 'Graianfryn' wedi ymaelodi yn syth ar ôl cyrraedd yr ardal yn 1909. Roedd gair am Glanrhyd fel capel 'pobol fawr'.

Fu Robert Gwynedd Davies ddim yn eistedd yn sêd fawr Glanrhyd, ei ddewis ef a'i wraig oedd y sêd gefn.

Erbyn y flwyddyn 1927 yr oedd Gwynedd yn ŵr gwael, ac mae gan Doris Thomas, a oedd yn hogan fach yn byw yn fferm y 'Garth' rhwng y 'Graianfryn' a'r capel, gof amdano yn eistedd y tu ôl i sêd eu teulu nhw. Robert Gwynedd Davies yn llesg, a nyrs drwyddedig yn gofalu amdano yn y capel, er mawr syndod i blant y 'Garth'.

Erbyn gwanwyn cynnar 1928 yr oedd o'n wael iawn, ac er iddo deithio i Bournemouth er mwyn gorffwyo a cheisio gwella, fe ddirywiodd pethau'n gyflym iawn.

Yn y gwesty yn Bournemouth fe ddigynnodd — yn ei wendid efallai — gan losgi'i hun yn ddirifrifol yn y tân yn ei ystafell. Bu farw ar 17 Ebrill a chafodd ei gladdu ym mynwent Caethro, ger Caernarfon.

Ei weinidog, y bardd telynegol, Wyn Williams a gyhoeddodd y cwpled hwn yn adroddiad yr eglwys:

*Doeth ei farn, nid aeth i fedd
Fawr un oedd fwy ei rinwedd.*

* * * *

Y MAE gennym atgofion dwy sydd heddiw yn cofio Grace Gwynedd Davies yn nyddiau'i gweddwdod, yn ei chofio'n gampus am eu bod nhw wedi treulio llawer o amser yn ei chwmini. Jennie Thomas, Caernarfon ydi un o'r rhain, fe fu hi'n gwini yn y 'Graianfryn' a'i chwaer yng nghyfraith Doris Thomas, Glanrhyd ydi'r llall.

Maen nhw'n cofio Grace Gwynedd Davies o ran pryd a gwedd, yn wraig bur dal, yn poeni am fynd yn dew ac yn bwyta ond y nesaf peth i ddim, yn cadw'i gwallt yn gocyn, yn hoff o ddillad *navy blue*, a cholera ffwr pob côd yn uchel at ei gên. Yn cofio'i chymeriad yn naturiol

'boneddiges i'r carn'

yn groesawus fel erioed yn y 'Graianfryn'.

Yn y capel yng Nglanrhyd yr oedd hi'n ffyddlon yn oedfa'r bore ac yn oedfa luosog iawn nos Sul, y hi yn sicr oedd yn cyfrannu fwyaf at drysorfa ariannol yr eglwys yn y cyfnod hwnnw.

Ac fe gyfrannodd yn helaeth hefyd at fywyd diwylliannol Glanrhyd, yn trefnu côr y capel — pawb a allai ganu yn gorfod ymuno â hwn — ac yn cydweithio â'i gweinidog Wyn Williams ar gyfer nosweithiau'r gymdeithas.



Grace Gwynedd Davies

Tua'r flwyddyn 1930 fe gymerodd hi Doris, merch y 'Garth' o dan ei hadain, a rhoi gwersi canu iddi yn y 'Graianfryn', ei hannog i ddatblygu'i llais colaratura.

Un pawns, yr oedd y disgybl ym mharlwr mawr y 'Graianfryn', ac yn gwneud stumiau yn y drych a oedd yn hongian uwchben y grand piano, pan ddaeth yr athrawes i mewn, a dweud,

*'Yes, Doris, but you must not
forget who you are.'*

'Roedd safonau 'Larkfield' a'r 'Graianfryn' yn rhai uchel bob amser.

Bu Grace Gwynedd Davies yn amlwg yn ei bro ar hyd y blynyddoedd, yn ynad heddwch, yn uchel yn rhengoedd Sefydliad y Merched a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ystyriai'i hun yn Gymraes drwyadl. Gallai fyw yn neimensiwn Cymreictod y dydd.

Cofir amdani heddiw am ei bywyd bonheddig a'i haelioni mawr. Bu farw ar 17 Hydref 1944 a'i chladdu ym mynwent Brynrodyn.

Alawon Gwerin Môn

Grace Gwynedd Davies, Caernarfon, (1914), tt.20, 278x221.

1. Titrwm, Tatrwm
2. Y Gelynen
3. Cob Malltraeth
4. Fy Meddwl a Fy Malais
5. Cwyn Mam-y Nghyfraith
6. Un o fy mrodyr i
7. Cyfiri'r Geifr

Ail Gasgliad o Alawon Gwerin Môn
Grace Gwynedd Davies, Wrexham (1923), '2nd ed', tt.20, 278x212.

1. Mynwent Eglwys
2. Lili Lon
3. Lisa Lân (1)
4. Lisa Lân (2)
5. Myfyrdod
6. Aderyn Du Bigfelen
7. Gwawr Can Mlynedd

Programme of Welsh Folk-Songs
'Kindly sung by Mrs Gwynedd Davies', 1912, Taylor, Garnett, Evans & Co. Ltd., Manchester and London.

1. Rhywun
2. Cyfiri'r Geifr
3. Caru Doli
4. Y Gwec Fach
5. Cob Malltraeth
6. Hela'r Sgyfarnog
7. Robin Goch
8. Yr Hen Ŵr Mwyn
9. Y Cariad Cyntaf
10. Beth Wneir A'r Wraig Benchwiban
11. Un o Fy Mrodyr a Yrodd I Mi